Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(125)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (30 munud)**

**4. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter (30 munud)**

**5. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardrethi Busnes (30 munud)**

**6. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Heb ei Drefnu (30 munud)**

**7. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid (30 munud)**

**8. Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Diddymu'r cyrff sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol - gohiriwyd tan 30 Ebrill 2013 (30 munud)**

**9. Dadl: Gofal Diwedd Oes (60 munud)**

NDM5209 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i wella gwasanaeth gofal diwedd oes; a

2. Yn nodi Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes.

Mae'r ddogfen Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes ar gael drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/end-of-life/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal diwedd oes o safon uchel yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod cyfraniad y mudiad hosbis, a darparwyr gofal eraill, tuag at ofal diwedd oes o safon uchel.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd parchu dymuniadau cleifion wrth ddarparu gofal diwedd oes.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r manteision y gall taliadau uniongyrchol eu cynnig i wella profiad y claf ar gyfer pobl sy'n cael gofal diwedd oes.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd toriadau termau real i'r gyllideb iechyd yn llesteirio'r cynnydd o ran gwella gofal diwedd oes yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu'i chyllidebau i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

**Cyfnod Pleidleisio**

**10. Dadl Fer - gohiriwyd ers 20 Mawrth 2013 (30 munud)**

NDM5208 Ken Skates (De Clwyd): Y tu hwnt i Fae Caerdydd - Rôl newidiol cyfryngau lleol a rhanbarthol ledled Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Ebrill 2013 i'w hateb ar 23 Ebrill 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltiadau trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1003(FM)

2. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru? OAQ(4)1013(FM)

3. **Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu yn sgîl methiant rhaglen Genesis Cymru Wales 2? OAQ(4)1005(FM)

4. **Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynghylch pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu cyfleoedd swyddi ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1014(FM)W

5. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch Swyddfeydd Post yn ystod y chwe mis diwethaf? OAQ(4)1006(FM)

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ag awdurdodau lleol ynghylch newidiadau mewn nawdd cymdeithasol? OAQ(4)1008(FM)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei rôl yn pennu blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1004(FM)

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r lleihad yn nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cael eu derbyn i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt? OAQ(4)1009(FM)

**9. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cydraddoldeb i fenywod? OAQ(4)1007(FM)

**10. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn Nhor-faen? OAQ(4)1010(FM)

**11. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu mewnfuddsoddiad i Ogledd Cymru? OAQ(4)1011(FM)

**12. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1012(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 30 Ebrill a dydd Mercher 1 Mai 2013

Dydd Mawrth 7 Mai a dydd Mercher 8 Mai 2013

Dydd Mawrth 14 Mai a dydd Mercher 15 Mai 2013

*****************************************************************

Dydd Mawrth 30 Ebrill 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Diddymu'r cyrff sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (30 munud)

Dydd Mercher 1 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26 a 26A mewn perthynas â'r Cyfnod Ailystyried (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 21 a 27 mewn perthynas â Chyflwyno Adroddiadau ar Offerynnau Statudol (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 29 a 30 ar Gydsyniad mewn perthynas â Biliau Senedd y DU (5 munud)

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

Dydd Mawrth 7 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (30 munud)
- Dadl: Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus (60 munud)
- Dadl: Adolygiad yr Athro McClelland o Wasanaethau Ambiwlans Cymru (60 munud)

Dydd Mercher 8 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru (60 munud)
- Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i bolisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 14 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Cynnydd o ran rhoi "Ynni Cymru" ar waith (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad Guildford (30 munud)
- Dadl: Cryfhau Democratiaeth Llywodraeth Leol (60 munud)

Dydd Mercher 15 Mai 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)